ATODLEN 2 Rheoliad 7

Y meini prawf dethol ar gyfer penderfyniad sgrinio

**Nodweddion prosiectau**

**1.** Nodweddion prosiectau, gan roi sylw penodol i—

(a) maint a dyluniad y prosiect cyfan;

(b) sut mae'n cyfuno â phrosiectau eraill presennol a/neu a gymeradwywyd;

(c) y defnydd o adnoddau naturiol, yn enwedig tir, pridd, dŵr a bioamrywiaeth;

(d) y gwastraff a gaiff ei gynhyrchu;

(e) llygredd a niwsans;

(f) y perygl o ddamweiniau difrifol a/neu drychinebau sy'n berthnasol i'r prosiect dan sylw, gan gynnwys y rheini a achosir gan newid yn yr hinsawdd, yn unol â gwybodaeth wyddonol; ac

(g) y risgiau i iechyd pobl (er enghraifft yn sgil halogi dŵr neu lygredd aer).

**Lleoliad y prosiect**

**2.** Sensitifrwydd amgylcheddol ardaloedd daearyddol y mae prosiectau yn debygol o effeithio arnynt, gan roi sylw penodol i—

(a) y defnydd presennol o'r tir a'r defnydd a gymeradwywyd o'r tir;

(b) digonedd, argaeledd, ansawdd a gallu atgynhyrchiol cymharol adnoddau naturiol (gan gynnwys pridd, tir, dŵr a bioamrywiaeth) yn yr ardal, gan gynnwys adnoddau tanddaearol; ac

(c) gallu'r amgylchedd naturiol i amsugno, gan roi sylw penodol i'r ardaloedd a ganlyn—

(i) gwlyptiroedd, glannau afonydd, aberoedd afonydd;

(ii) parthau arfordirol a'r amgylchedd morol;

(iii) ardaloedd mynyddig a choedwigoedd;

(iv) gwarchodfeydd natur a pharciau;

(v) ardaloedd sydd wedi eu dosbarthu neu wedi eu diogelu o dan ddeddfwriaeth (gan gynnwys safleoedd Ewropeaidd);

(vi) ardaloedd lle bu methiant eisoes i fodloni'r safonau ansawdd amgylcheddol a nodir yn neddfwriaeth yr UE ac sy'n berthnasol i'r prosiect, neu ardaloedd lle ystyrir bod methiant o'r fath;

(vii) ardaloedd dwys eu poblogaeth; ac

(viii) tirweddau a safleoedd sydd o bwys hanesyddol, diwylliannol neu archaeolegol.

**Yr effaith bosibl**

**3.** Rhaid ystyried effeithiau sylweddol tebygol prosiectau ar yr amgylchedd, mewn perthynas â'r meini prawf a nodir ym mharagraffau 1 a 2 o'r Atodlen hon, o ran effaith y prosiect ar y ffactorau a bennir ym mharagraff 4(1) o Atodlen 3, gan gymryd i ystyriaeth—

(a) maint a graddau gofodol yr effaith (er enghraifft arwynebedd daearyddol a maint y boblogaeth sy'n debygol o gael ei heffeithio);

(b) natur yr effaith;

(c) natur trawsffiniol yr effaith;

(d) dwysedd a chymhlethdod yr effaith;

(e) tebygolrwydd yr effaith;

(f) dechreuad, hyd, amlder a gwrthdroadwyedd disgwyliedig yr effaith;

(g) sut mae'r effaith yn cyfuno ag effaith prosiectau eraill presennol a/neu a gymeradwywyd; ac

(h) y posibilrwydd o leihau'r effaith yn effeithiol.